



Plaladdwyr – a oes gennych dystysgrif fedruswydd?

Yn y rhifyn hwn:

Grwpiau trafod newydd 2

Digwyddiadau garddwriaethol 2

Grantiau ar gyfer cyrsiau medrau cefn 2

Lladd a thrin dofednod ar raddfa fach 3

Ffeithlenni CAU newydd ar gael 3

A wyddech chi ei bod yn HANFODOL ichi fod â THYSTYSGRIF FEDRUSWYDD os ganwyd chi ar ôl 31 Rhagfyr 1964, a'ch bod yn defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion amaethyddol (chwynladdwyr, plaladdwyr, ffyngladdwyr, etc)?

Mae'r Cyngor Cenedlaethol dros Brofion Medruswydd (NPTC) yn gweinyddu'r gwahanol brofion sy'n ofynnol er mwyn ennill y tystysgrifau medruswydd.

Ar hyn o bryd, ceir 13 o unedau gwahanol, sef PA1 hyd at PA13. Uned sylfaenol gyffredinol yw PA1. Ynddi'i hun, nid yw'n dystysgrif fedruswydd o ran defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion, ond mae'n rhagofynnol cyn cymryd unrhyw rai o'r unedau eraill. Mae Unedau PA2 hyd at PA3 yn ymdrin â dulliau penodol o ddefnyddio cynhyrchion; ar arnoch angen tystysgrif fedruswydd ar gyfer eich HOLL ddulliau o ddefnyddio.

Yn gyffredinol, cyfeirir at yr unedau wrth eu codau'n unig – e.e. PA2 – nad yw'n rhyw lawer o gymorth pan fyddwch yn ceisio canfod pa uned sydd ei hangen arnoch. Dyma deitlau'r unedau:

- PA1 – sylfaen
- PA2 – Chwistrellydd Cnydau'r Ddaear – wedi'i fowntio neu ei lusgo
- PA3 – Chwistrellwr bŵm Tryledol neu geometreg amrywiol – wedi'i fowntio neu ei lusgo
- PA4 – defnyddio plaladdwr yn ronynnog – wedi'i fowntio neu ei lusgo
- PA5 – taenwyr 'cwch' wedi'u mowntio
- PA6 – taenwyr a ddelir â llaw
- PA7 – taenwr o'r awyr – peilot

- PA8 – llwythwr cymysgydd
 - PA9 – caddugo, niwlio a mygu
 - PA10 – trochi swp
 - PA11 – trin offer hadu
 - PA12 – defnyddio plaladdwyr ar ddeunyddiau fel proses barhaus trwy gludydd, byrddau rholiom ac offer symudol eraill
 - PA13 – taenwr hylifau is-wyneb (DS – mae rhai o'r unedau wedi'u his-rannu ymhellach, ar gyfer dulliau taenu mwy penodol.)
- Gellwch lawrlwytho'r rhaglenni ar gyfer yr asesiadau, o www.nptc.org.uk/assessment-schedules

Cynigir y cyrsiau gan y rhan fwyaf o golegau amaethyddol, ynghyd â gwahanol gwmnïau hyfforddi annibynnol. Darparwr yr hyfforddiant sy'n pennu cost y cwrs, a mae'r prisiau'n amrywio. Fodd bynnag, rydym yn sôn am gannoedd o bunnoedd, nid am filoedd. Pan fyddwch yn holi ynglŷn â chost cyrsiau, gofalwch eich bod yn gwirio a yw'r ffi gofrestru a'r ffi arholi wedi'u cynnwys. Efallai y cewch gymorth tuag at gost yr hyfforddiant, trwy Raglen Medrau Cyswllt Ffermio Lantra. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â hyn, cysylltwch â Chanolfan Gwasanaeth Cyswllt Ffermio— 0845 6000 813.

Pwnciau CALU:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau Amgen

Grwpiau trafod newydd

OEDDECH CHI'N

GWYBOD...?

y priodolir defnydd cyntaf llif gron mewn melin lifio i Tabitha Babbitt ym 1913? Cydnabu Babbitt pa mor aneffeithiol oedd llif bwlwll gonfensiynol nad oedd yn torri ond un strôc (a'r weithred wrthdro'n anghynhyrchiol).

Mae'n bleser gennym fod sawl grŵp o fusnesau wedi dod at ei gilydd i ffurfio "grwpiau trafod" newydd.

Mae **Gwinllannoedd Gogledd Cymru** yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 3 Tachwedd. Simon Day yw eu siaradwr – ymgynghorydd gwinwyddaeth adnabyddus (sydd hefyd wedi arallgyfeirio i wneud seidr).

Cynhaliodd **Planigfeydd Coed Gogledd Cymru** eu cyfarfod cyntaf ar 14 Hydref. Rhoddodd Geraint Jones, Swyddog Coed Cymru dros Gonwy, sgwrs wych ar gynnal planhigfa goed lwyddiannus, ynghyd â llawer o wybodaeth fuddiol am ddeddfwriaeth a chyflenwyr. Mae grŵp newydd ar gyfer

hefyd yn cychwyn—mae cyfarfod cyntaf y grŵp i'w gynnal ddydd Iau 10 Rhagfyr. Bydd Kenton Morgan o Brifysgol Lerpwl yn siarad am gynlluniau iechyd geifreioedd ar gyfer ceidwaid geifr.

Rydym hefyd yn meddwl sefydlu **Grŵp Cynhyrchwyr Moch yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru**. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer cynhyrchwyr moch yng ngogledd Cymru yng Nglynllifon, ond mae sawl un yn teithio o'r gogledd-ddwyrain ac, os ceir digon o ddiddordeb, byddwn yn creu grŵp newydd acw.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw rai o'r grwpiau hyn, cysylltwch â ni.

Digwyddiadau garddwriaethol

Mae ein cyfres o weithdai ar gyfer 2009 yn tynnu at ei therfyn. I gwblhau'r gyfres, mae dau weithdy olaf i'w cynnal: mae'r cyntaf yn weithdy 'ychwanegu gwerth yn y Gaeaf' yng Ngerddi Aberglesni, Caerfyrddin, ar 10 Tachwedd 2009. Arweinir y digwyddiad gan Robert Mackey o Growth Business a Chris Creed o ADAS. Bydd gennym hefyd arddangosiadau gan gyflenwyr sy'n ymestyn dros dde-orllewin Cymru.

Gweithdy 'pla a chlefyd ar blanhigion ifainc a leineri' fydd y gweithdy garddwriaeth olaf, ym Mhlanhigfa Seiont, Caernarfon, am 1.00pm ar 25 Tachwedd. Bydd Martin Donnelly o Certis yn ymuno â thîm Seiont ar gyfer taith gerdded a sgwrs ynglŷn â'u maes cynhyrchu, gan ganolbwyntio ar eu dulliau rheoli.

Os hoffech gael gwybodaeth am ein digwyddiadau garddwriaethol yn 2010, gofalwch fod gennym gyswllt diweddar. Mae digwyddiadau arfaethedig yn cynnwys: impio coed ffrwythau; eitemau addurnol; a chynhyrchu ffrwythau a llysiau.

OEDDECH CHI'N

GWYBOD...?

fod WRAP yn amcangyfrif bod mwy na 4 miliwn o afalau a mwy na 5 miliwn o datws yn cael eu taflu yn y DU bob dydd?

Grantiau sydd ar gael ar gyfer cyrsiau medrau cefn gwlad

Mae cyllid ar gael gan Lantra a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (yn amodol ar feini prawf cymhwyster) ar gyfer **mân-ddeiliaid a chontractwyr** tuag at wella eu medrau ym maes rheolaeth cefn gwlad.

Mae'r cyllid yn talu rhwng 30% a 50% o gost cyrsiau, yn cynnwys **gosod ffens, codi waliau cerrig sych, rheoli rhedyn, plannu coed a gosod cloddiau**.

Mae'r grantiau ar gael tan Fawrth 2010, felly, os oes gennych ddiddordeb, holwch yn awr, yn ddi-oed!

Amcan y project yw gwella medrau ymarferol er budd yr amgylchedd.

Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â Hayley Cleaver yn Lantra—01982 552646, e-bost Hayley.cleaver@lantra.co.uk

Lladd a thrin dofednod ar raddfa fach

Ar 22 Hydref, cynhaliodd CALU weithdy yng Nghanolfan Ddofednod Cymru, Llanpumsaint, Sir Gaerfyrddin. Ym mherchnogaeth a than reolaeth Steve Merritt a Juliet Fay.

Symudodd Steve a Juliet i'w fferm wyth mlynedd yn ôl. Sefydlasant eu lladd-dy ar y fferm, fel y gallent ladd a thrin eu dofednod eu hunain, a hefyd ddofednod cynhyrchwyr eraill.

Ar y cychwyn, cofrestrwyd eu lladd-dy dan Drwydded gan y Gwasanaethau Hylendid Cig (GHC). Trwy hynny, roeddent yn gallu lladd a thrin dofednod pobl eraill, yn ogystal â'u hadar eu hunain. Yn anffodus, oherwydd y costau oedd ynghlwm wrth dalu milfeddyg

cofrestredig â GHC i fod yn dyst i unrhyw ladd neu ddiberfeddu, roedd yn aneconomaidd. Felly, mae'r adeilad bellach yn gweithredu dan drwydded 'eithriedig'. Dan y drwydded hon, gellir lladd hyd at 10,000 o adar bob blwyddyn. Ni chaniateir eu gwerthu ond yn uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf, a hynny ond o fewn ardal eich Awdurdod Lleol neu'r cymdogion agosaf. Cyfyngiad arall i'r drwydded hon yw nad yw'n caniatáu ond ichi ladd eich adar eich hunain, nid rhai o eiddo cynhyrchwyr eraill.

Yn ogystal â rhoi gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r prosesau a'r gofynion deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â sefydlu a chynnal lladd-dy dofednod ar raddfa

fach, rhoddodd y gweithdy wybodaeth ymarferol amhrisiadwy ynglŷn â gweithrediad y cyfleusterau.

Bu'r rhai a oedd yn bresennol yn cerdded y llinell drin lawn, o'r fan y delir yr adar, eu bwrw'n anymwybodol, eu gwaedu, eu pluo, eu diberfeddu, hyd at y cynnyrch terfynol. Rhoddwyd eglurhad ynglŷn â'r cyfarpar sy'n angenrheidiol ar bob cam o'r broses, ynghyd ag amcangyfrif o'r costau.

Bu'r adborth o'r digwyddiad yn gadarnhaol iawn. Mae nodiadau'r diwrnod wedi'u hysgrifennu, ac ar gael ar wefan CALU.

Os oes gennych syniadau ar

OEDDECH CHI'N

GWYBOD...?

fod mwy o ieir yn y byd na'r un aderyn domestig arall? Ceir mwy nag un iâr i bob bod dynol.

Ffeithlenni CAU newydd ar gael

Ers ein newyddlen ddiwethaf, rydym wedi cynhyrchu nifer o ffeithlenni newydd ac o adroddiadau ar ddigwyddiadau ar y fferm arddangos.

Yn yr **adran arddwriaeth**, ceir ffeithlen ragarweiniol newydd ar dyfu ceirios melys.

Yn yr **adran goedwigoedd**, mae gennym ddwy ffeithlen newydd, sef un yn rhoi trosolwg sylfaenol ar dechnegau mesur confensiynol ar goedwigoedd er mwyn asesu cyfaint, tra bo'r llall yn cyffwrdd ar werthuso cyfeintiau coed tân mewn clystyrau o goed, sut i hafalu hyn â gwerthoedd ynni posibl, a hefyd y mater oesol o gloriannu cynhaeaf cynaliadwy. Yn dilyn

gweithdy llwyddiannus iawn ar ladd a thrin dofednod ar raddfa fach ar gyfer cynhyrchwyr dofednod, mae nodiadau'r gweithdy wedi'u cyhoeddi. Yn yr un modd, ceir nodiadau'r gweithdy ardderchog a gynaliasom yn Stociau Ffrwythau Cymru, yn edrych ar ledaenu cansennau a ffrwythau meddal ar gael.

Mae ein ffeithlen sy'n rhoi cyflwyniad sylfaenol i'r materion ymarferol a biwrocraidd y bydd angen i unrhyw un sy'n newydd i **berchnogaeth ar dir** fynd i'r afael ag ef yn ychwanegiad arall y bu llawer yn disgwyl yn hir amdano.

Mae ein holl ffeithlenni wedi'u hysgrifennu mewn ymateb i hysgrifennu gan y cyhoedd. Os oes unrhyw bynciau yr hoffech inni roi sylw iddynt, rhowch wybod inni.

Mae'r holl ffeithlenni ar gael i'w lawrlwytho am ddim o'n gwefan—www.calu.bangor.ac.uk.

Fodd bynnag, os cewch unrhyw broblemau wrth lawrlwytho'r ffeithlenni hyn, neu pe bai'n well gennych eu cael trwy e-bost neu fel copi caled, rhowch wybod inni.

Mae'r ffeithlenni wedi'u cynhyrchu dan nawdd Rhaglen Llywodraeth y Cynulliad ar Gyswilt Ffermio. Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth hon.

CANOLFAN DEFNYDD TIR AMGEN

Canolfan Ymchwil Henfaes
Prifysgol Bangor
Abergwyngregyn
LLANFAIRFECHAN
LL33 0LB
Ffôn: 01248 680 450
Ffacs: 01248 681730
E-bost: calu@bangor.ac.uk

www.calu.bangor.ac.uk

Yn Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy



Digwyddiadau i Ddod

**Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth am unrhyw un o ddi-
wyddiadau CALU.**

Dydd Mawrth 3 Tachwedd: Gwinllannoedd yng Ngogledd Cymru, 3 Tachwedd 2009, 6.30pm – 8.00pm, Canolfan Ymchwil Henfaes, Abergwyngregyn, LL33 0LB

Dydd Mawrth 10 Tachwedd: 11.00am – 3.30pm, Ychwanegu Gwerth yn y Gaeaf, Gerddi Aberglesni, Sir Gaerfyrddin SA32 8QH

Dydd Mercher 25 Tachwedd: 1.00pm 3.30pm Plau ac afiechydon mewn planhigion ifanc a leinerau., Seiont Nursery, Pontrug, Caernarfon ,LL55 2BB

Dydd Mercher 25 Tachwedd :6.30-8.30, Cymorth technegol I fagu moch, Gweithdy fagu moch CALU Canolfan Da Byw Caerfyrddin, Nantyci, Caerfyrddin, SA33 5DR

Dydd Llun 30 Tachwedd a Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2009—Ffair Aeaf, Maes Y Sioe, Llanellwedd

Nos Iau 3 Rhagfyr: Iechyd preiddiau geifr – 6.30pm-8.30pm Canolfan Ymchwil Henfaes, Abergwyngregyn LL33 0LB

Nos Fercher 16 Rhagfyr: Iechyd geifreoedd—Nid defaid mo geifr! Gweithdy gan CALU, 6.30-8.30pm. Canolfan da byw caerfyrddin, Nantyci, SA33 5DR

Ffeithiau am CALU

Mae CALU'n cyflwyno Rhaglen Datblygu Rheolaeth Tir Cyswllt Ffermio. Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth i unrhyw fusnes yng Nghymru sydd â diddordeb yn y canlynol:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd

Mae gan CALU dri aelod staff parhaol a rhwydwaith o arbenigwyr cysylltiedig sy'n ymdrin â'r holl feysydd yng nghylch gorchwyl CALU.

GWEITHGAREDDAU CALU:

- Dyddiau agored
- Arddangosiadau
- Tafenni technegol
- Dyddiau hyfforddi
- Erthyglau i'r wasg
- Tafenni gwybodaeth am gnydau
- Adroddiadau project
- Sgyrsiau
- Grwpiau cynhyrchwyr
- Sioeau amaethyddol
- Ilyfyrnau gwybodaeth

PARTNERIAID CALU :

- Prifysgol Bangor
- Coleg Garddwriaeth Cymru
- ADAS Cymru
- Coed Cymru
- Coleg Llysfasi

